BookTrust Storytime

# Adroddiad Gwerthuso

Amser Stori BookTrust Cymru 2022-23

**Hydref 2023**



# Cynnwys


1 **Crynodeb gweithredol** t3

2 **Cefndir**
Am Amser Stori BookTrust ac amcanion y rhaglen t5

3 **Dull dysgu**
Crynodeb o sut y bu i ni werthuso Amser Stori BookTrust 2022-23 t8

4 **Beth rydyn ni wedi'i ddysgu eleni**
Effaith Amser Stori BookTrust, cael teuluoedd i gymryd rhan, a sut roedd llyfrgelloedd yn defnyddio'r adnoddau t9

5 **Beth sydd nesaf ar gyfer Amser Stori BookTrust** t15

# Crynodeb gweithredol

BookTrust Storytime

**BookTrust yw elusen ddarllen plant fwyaf y DU.**

**Rydym ni eisiau i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd ac o ddewis. Bob blwyddyn, byddwn ni'n cyrraedd dros 1.5 miliwn o blant a theuluoedd, yn enwedig rhai o deuluoedd incwm isel neu gefndiroedd bregus, gan eu hysbrydoli gyda llyfrau ac adnoddau i'w rhoi ar ben ffordd ar eu taith ddarllen. Seilir yr adroddiad hwn ar ganfyddiadau gwaith gyda'n partneriaid llyfrgell yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.**

## Am Amser Stori BookTrust

Mae Amser Stori BookTrust yn un elfen o'n portffolio seiliedig-ar-dystiolaeth o raglenni blynyddoedd cynnar a chymorth i bartneriaid a theuluoedd. Cynlluniwyd yr holl waith hwn i ddarparu profiad difyr a phleserus i deuluoedd a phartneriaid fel ei gilydd, a'i nod yw adeiladu canlyniadau ac effeithiau darllen tymor hwy i deuluoedd.

Datblygwyd Amser Stori BookTrust mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, llyfrgelloedd a theuluoedd. Yn dilyn cynllun peilot blwyddyn gyntaf llwyddiannus yn 2021, bu BookTrust mewn partneriaeth â **2,378 o lyfrgelloedd**[1] yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddarparu Amser Stori BookTrust am yr eildro yn 2022.

Ar gyfer 2022-23, derbyniodd pob un o lyfrgelloedd Amser Stori BookTrust un copi safonol o'n chwe llyfr ar y rhestr fer, a ddewiswyd yn benodol gan banel o deuluoedd a llyfrgelloedd fel y llyfrau gorau i'w rhannu â phlant dan 5 oed. Roedd gan lyfrgelloedd fynediad i amrywiaeth o adnoddau digidol, a bu i ni weithio gydag awdurdodau lleol i amlygu dros 900 o lyfrgelloedd mewn ardaloedd o amddifadedd uchel a fyddai'n cael adnoddau papur ychwanegol.



## Ynglŷn â'n dull dysgu

Defnyddiwyd cymysgedd o ddulliau ansoddol a meintiol i roi llais cryf i staff llyfrgelloedd yn natblygiad a gwerthusiad parhaus Amser Stori BookTrust. Ar gyfer 22-23, roedd hyn yn cynnwys:

- Dau arolwg ar-lein
- Cymuned ar-lein
- Ymweliadau â llyfrgelloedd
- Adborth ad hoc i BookTrust

[1] Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn treialu Amser Stori BookTrust yng Nghymru am y tro cyntaf, gyda 22 o lyfrgelloedd.

# Amser Stori BookTrust 2022-23: Trosolwg

## 1

### Diolch am fod yn rhan o rwydwaith o 2,378 o lyfrgelloedd a wnaeth Amser Stori BookTrust yn gymaint o lwyddiant eleni.

Amcangyfrifwn fod **50,000** o blant dan bump oed wedi defnyddio neu ymgysylltu ag Amser Stori BookTrust eleni. Oblith y rhain, roedd **31%** yn newydd i'r llyfrgell, roedd **45%** o deuluoedd incwm isel a dychwelodd **70%** i'r llyfrgell ar ôl eu hymweliad cychwynnol.

Mae graddfa drawiadol cyrhaeddiad Amser Stori BookTrust eleni yn adlewyrchu arbenigedd a brwdfrydedd ein rhwydwaith mawr o bartneriaid llyfrgell ymroddedig. Ein gobaith yw y gallwn, gyda'n gilydd, weld y niferoedd hyn yn tyfu hyd yn oed ymhellach y flwyddyn nesaf!

## 2

### Rydyn ni wedi adeiladu ar gynllun peilot llwyddiannus y llynedd a byddwn ni'n parhau i wrando ar eich adborth i wella ein holl gynigion blynyddoedd cynnar.

Roedd **83%** o staff y llyfrgell yn hoffi neu wrth eu bodd yn gweithio ar y rhaglen eleni, i fyny o **72%** yn 2022. Mae teuluoedd a phartneriaid wrth galon gwaith BookTrust ac rydym yn rhoi eich adborth ar waith yn syth.
Bu i ni newid nifer o'r adnoddau eleni ar ôl i **63%** o bartneriaid llyfrgell ddweud wrthym eu bod wedi derbyn gormod yn y flwyddyn flaenorol. Eleni, dywedodd **62%** o staff y llyfrgell fod nifer yr adnoddau fwy neu lai yn iawn. Byddwn ni'n parhau i wrando ar adborth ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid llyfrgell i esblygu Amser Stori BookTrust.

## 3

### Mae defnyddio perthynas presennol gyda phartneriaid cymunedol, a sefydlu rhai newydd, yn allweddol i annog teuluoedd newydd i ymweld â'r llyfrgell a chael profiad o Amser Stori BookTrust.

Dengys gwerthusiad eleni fod **44%** o staff llyfrgelloedd wedi gweithio gyda sefydliadau partner i ddarparu Amser Stori BookTrust. Mae Amser Stori BookTrust yn cefnogi cynnal perthynas hirdymor werthfawr yn ogystal â helpu llyfrgelloedd i ddod o hyd i bartneriaid newydd i gysylltu â nhw. Gwyddom y gallwn wneud mwy i gefnogi mwy o lyfrgelloedd i nodi a sefydlu perthynas â phartneriaid cymunedol a dyma fydd un ffocws allweddol eleni ar gyfer ein rhaglenni blynyddoedd cynnar BookTrust.

## 4

### Hoffem esblygu ac ehangu Amser Stori BookTrust i gyrraedd hyd yn oed mwy o deuluoedd blynyddoedd cynnar.

Yn yr arolwg, dywedodd **20%** o staff llyfrgelloedd eu bod wedi defnyddio adnoddau Amser Stori BookTrust gyda theuluoedd y tu allan i'w llyfrgell, er enghraifft mewn lleoliadau cymunedol, cylchoedd chwarae neu ysgolion. Yn 2023-24, byddwn ni'n gweithio gyda nifer fach o lyfrgelloedd i ddeall sut maen nhw'n mynd ag Amser Stori BookTrust allan i'w cymunedau lleol. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda nifer fach o sefydliadau cymunedol newydd i dreialu cynnal Amser Stori BookTrust am y tro cyntaf yn y lleoliadau hyn. Rydyn ni'n teimlo cyffro ar gyfer dysgu mwy am sut y gallwn esblygu ac ehangu'r rhaglen a rhannu'r canfyddiadau gyda chi!

BookTrust Storytime

# Cefndir

## Am Amser Stori BookTrust

**Mae BookTrust wedi ymrwymo i ddod â manteision darllen i blant a chael effaith hirdymor trwy ddatblygu arferion ac ymddygiadau darllen. Rydyn ni'n cynnig cymorth a dargedir yn fwy at deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus – yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar – oherwydd gwyddom mai'r plant hyn sy'n mynd i elwa fwyaf o fanteision eang darllen.**

Yn dilyn cynllun peilot blwyddyn gyntaf lwyddiannus yn 2021, bu BookTrust mewn partneriaeth â 2,378 o lyfrgelloedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddarparu Amser Stori BookTrust am yr eildro yn 2022.

Datblygwyd Amser Stori BookTrust mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, llyfrgelloedd a theuluoedd. Bellach, cwblhaodd y fenter ei hail flwyddyn, ac fe'i cefnogir gan bartneriaid llyfrgell gan gynnwys Cymdeithas yr Uwch-Lyfrgellwyr Plant ac Addysg (ASCEL), Sefydliad Siartredig Gweithwyr Llyfrgell a Gwybodaeth Proffesiynol (CILIP) a Libraries Connected.

Cynlluniwyd Amser Stori BookTrust i gefnogi staff y llyfrgell i ysbrydoli teuluoedd â phlant dan bump oed i rannu straeon gyda'i gilydd a gwneud ymweld â'u llyfrgell leol yn rhan o fywyd bob dydd. Mae Amser Stori BookTrust yn agored i bob teulu, ond fe'i cynlluniwyd yn benodol i ymgysylltu â theuluoedd ar incwm is na fyddent fel arfer yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell, boed nhw'n ymwelwyr am y tro cyntaf neu'n deuluoedd nad ydynt yn ddefnyddwyr rheolaidd.

Daw'r rhaglen i'w uchafbwynt â Gwobr Amser Stori BookTrust, pan fydd pleidleisiau gan deuluoedd a staff y llyfrgell yn cael eu cyfri gyda'i gilydd i ddod o hyd i'r llyfr gorau i'w rannu â phlant dan 5 oed. Fe wnaethon ni wrando ar adborth gan lyfrgelloedd a theuluoedd yn ystod blwyddyn gyntaf y peilot i lunio'r arlwy eleni, a sicrhau bod Amser Stori BookTrust yn parhau i gael ei gynllunio gydag anghenion ein teuluoedd a'n partneriaid yn greiddiol iddo.



**Nod Amser Stori BookTrust yw adeiladu deilliannau darllen ac effeithiau mwy hirdymor i deuluoedd trwy:**

- Adeiladu partneriaethau Amser Stori BookTrust gyda llyfrgelloedd, gan eu cefnogi yn eu gwaith gyda theuluoedd blynyddoedd cynnar
- Darparu profiadau difyr sy'n cefnogi teuluoedd ar eu teithiau darllen ar y cyd.

# Y chwe llyfr ar restr fer Amser Stori 22-23

Yn 2022-23, derbyniodd holl lyfrgelloedd Amser Stori BookTrust un copi safonol o'n chwe llyfr, a ddewiswyd yn arbennig gan banel o deuluoedd a llyfrgelloedd fel y llyfrau gorau i'w rhannu â phlant dan bump oed. Roedd gan lyfrgelloedd hefyd fynediad at ystod eang o adnoddau digidol ier mwyn gallu dod â straeon Amser Stori BookTrust yn fyw trwy gydol y flwyddyn.


Eleni, bu i ni weithio gydag Awdurdodau Lleol i amlygu dros 900 o lyfrgelloedd mewn ardaloedd o amddifadedd uchel a fyddai'n derbyn ein cynnig 'uwch'. Derbyniodd y rhain nid yn unig lyfrau craidd BookTrust Storytime, ond hefyd gopïau mwy o faint, oedd yn berffaith i'w rhannu â grwpiau mwy. Cawsant hefyd adnoddau papur ychwanegol i wneud eu llyfrgelloedd yn ofod mwy croesawgar a rhyngweithiol, a gweithgareddau i beri fod teuluoedd yn parhau i ddod yn ôl i'r llyfrgell.




### Can You Tickle a Tiger?

Bobbie Brooks, Carrie Hennon

**Enillydd gwobr Amser Stori**




### Red Lorry, Yellow Lorry

Michelle Robinson, Jez Tuya





### Nature Trail

Benjamin Zephaniah, Nila Aye





### The Duck Who Didn't Like Water

Steve Small




### The Horse That Jumped

Thomas Docherty




### Zoom: Farm Adventure

Susan Hayes, Aviel Basil



# Pam fod darllen ar y cyd yn ifanc yn bwysig i blant?

Ar adeg pan fo teuluoedd yn wynebu pwysau lluosog a gwrthdrawiadol ar eu hamser a'u harian, pam ei bod mor bwysig buddsoddi mewn cefnogi teuluoedd i rannu llyfrau a straeon?

Profwyd bod darllen a rhannu straeon yn dod â manteision dwys ac eang i blant a all effeithio ar eu hiechyd, eu llesiant, eu cynnydd yn yr ysgol a'u creadigrwydd. Daw darllen ar y cyd â manteision uniongyrchol i deuluoedd hefyd. Mae'n cefnogi creu rhwymyn emosiynol rhwng plant a'u rhieni, gofalwyr neu aelodau eraill o'r teulu, yn hybu positifrwydd rhieni ac yn gwella cwsg plant.

Bydd ymenydd plentyn yn profi'r twf mwyaf yn ystod pum mlynedd gyntaf eu bywyd. Yn y blynyddoedd cynnar hyn, mae'r symbyliad a geir gan lyfrau, a defnyddio llyfrau, straeon a rhigymau fel ffocws ar gyfer chwarae, siarad a chanu, yn gwella twf a datblygiad gwybyddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i blentyndod.

Rydyn ni'n gwybod fod plant sy'n cael profiad o ddarllen ar y cyd yn ifanc yn fwy tebygol o barhau i ddarllen wrth iddynt dyfu i fyny. Mae darllen er pleser yn y blynyddoedd cynnar yn cael effaith bedair gwaith yn fwy grymus ar gynnydd plentyn ar draws y cwricwlwm yn 16 oed nag ydyw addysg rhieni neu statws economaidd-gymdeithasol.

Bydd plant o gefndiroedd incwm isel yn elwa hyd yn oed yn fwy o ran manteision uniongyrchol a hirdymor darllen ifanc ar y cyd. Dengys tystiolaeth fod plant o gefndiroedd difreintiedig sy'n cyflawni'n uchel ar ddiwedd yr cyfnod ysgol gynradd ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cael rhywunn yn darllen iddyn nhw gartref yn eu blynyddoedd cynnar o gymharu â'u cyfoedion. Yn y tymor hir, mae gan ddarllen y potensial i drawsnewid cyfleoedd bywyd plant i'r dyfodol. Mae gan blentyn sy'n tyfu mewn tlodi ond sy'n cael rhywun yn darllen iddo'n bump oed obaith sylweddol uwch o gael llwyddiant economaidd yn ei 30au na'i gyfoedion nad oedd yn cael rhywun yn darllen iddo.

Mae'n hanfodol nad yw plant o gefndiroedd teuluol incwm isel a bregus yn colli'r cyfle i elwa o fanteision trawsnewidiol darllen cynnar ar y cyd. Dyna pam rydyn ni yn BookTrust yn darparu cymorth ychwanegol i'r teuluoedd hyn; gan sicrhau bod ein llyfrau, ein hadnoddau a'n cymorth yn cyrraedd ac yn ymgysylltu â'r plant a'r teuluoedd sydd ein hangen fwyaf.

Darllenwch ein hymchwil i **fanteision darllen** neu ein **nodyn briffio** cyntaf yn seiliedig ar ein hymchwil gyda theuluoedd o gefndiroedd incwm isel



"Mae'r bwlch anfantais cynyddol rhwng plant o deuluoedd incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar ac yn parhau drwy gydol eu plentyndod. Fel mater o frys, mae angen i unrhyw drafodaeth am gefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar gynnwys mesurau a fydd yn cymell ac yn annog plant a theuluoedd i rannu straeon gyda'i gilydd fel y gallant brofi manteision uniongyrchol a mwy hirdymor darllen. Mae BookTrust wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd gydag ymyriadau effeithiol a chost-effeithiol fel y gallant fwynhau profiadau darllen ar y cyd. A wnewch chi ymuno â ni?"

**Diana Gerald, Prif Weithredwr, BookTrust**

# Dull dysgu

**Fel rhan o waith ehangach BookTrust ym maes y blynyddoedd cynnar a'n hymrwymiad parhaus fel sefydliad sy'n dysgu, defnyddiwyd cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol i roi llais cryf i staff y llyfrgell yn natblygiad a gwerthusiad parhaus Amser Stori BookTrust.**

**Dull dysgu ar Amser Stori BookTrust 2022-23**

**Arolwg adborth cychwynnol (Hydref – Tachwedd 2022)**
Arolwg byr ar-lein yn agored i bob llyfrgell sy'n cymryd rhan er mwyn deall eu hargraffiadau cychwynnol o'r adnoddau. 117 o ymatebion.

**Cymuned ar-lein (drwy gydol y cyfnod)**
Gwahodd pob llyfrgell sy'n cymryd rhan i roi adborth trwy ein llwyfan ar-lein BookTrust Voices

**Ymweliadau â llyfrgelloedd (Hydref 2022 a dechrau 2023)**
Arsylwi adnoddau Amser Stori BookTrust ar waith, cyfweliadau gyda staff y llyfrgell, trafodaethau gyda theuluoedd

**Arolwg diwedd rhaglen (Ebrill – Mehefin 2023)**
Arolwg ar-lein ar gyfer pob lyfrgell a gymerodd ran i archwilio eu profiadau o'r rhaglen. 160 o ymatebion.

**Adborth ad hoc i BookTrust (drwy gydol y cyfnod)**
Staff y llyfrgell yn rhannu adborth anffurfiol gyda BookTrust fel rhan o'n perthynas barhaus

## Cyfyngiadau ein dull dysgu

Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal dulliau gwerthuso cadarn a cheisiwyd cael yr holl ymarferwyr llyfrgell a gymerodd ran i gyfranogi yn ein harolygon. Mae derbyn 160 o ymatebion i'n harolwg gwerthuso terfynol yn rhoi sylfaen i ni allu dod i gasgliadau cryf.

Ceir cyfyngiadau o ystyried bod hon yn rhaglen genedlaethol, sy'n cynnwys poblogaeth llyfrgell amrywiol. Cydnabyddwn y bydd y rhagamcanion a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys rhyw gymaint o amcanu. Byddwn ni'n parhau i ddysgu ar y cyd â llyfrgelloedd, partneriaid cymunedol a theuluoedd ar draws ein cynigion Blynyddoedd Cynnar, gan gryfhau ein dull dysgu ymhellach. Rydyn ni wedi ymrwymo i rannu canfyddiadau gyda'n partneriaid, ein cyllidwyr, a'r sector Blynyddoedd Cynnar ehangach.

**Hoffem ddiolch o galon i'n holl bartneriaid llyfrgell am eu gwaith ar Amser Stori BookTrust ac i bawb a rannodd eu barn a'u profiadau gyda ni!**



Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r hyn rydym ni wedi'i ddysgu am Amser Stori BookTrust 22-23, gan gwmpasu: cyrhaeddiad ac effaith y rhaglen (t9); sut y bu i staff llyfrgelloedd BookTrust Storytime ymateb i'r cynnwys (t10); sut roedd staff llyfrgelloedd yn annog teuluoedd i gymryd rhan yn y rhaglen (t10); sut y defnyddiodd llyfrgelloedd yr adnoddau (t12); a barn staff y llyfrgell am ein Hyb Storïwr ar-lein (t14).

## Cyrhaeddiad ac effaith Amser Stori BookTrust

Drwy weithio gyda 2,378 o lyfrgelloedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn gyffredinol, rydym ni'n amcangyfrif bod **50,000** o blant dan bump oed wedi defnyddio neu ymgysylltu ag Amser Stori BookTrust eleni. Dywed ymatebion i'n harolwg wrthym fod...

**31%**
o'r teuluoedd a ymgysylltodd ag Amser Stori BookTrust yn newydd i'r llyfrgell


Roedd **45%**
o'r teuluoedd a ymgysylltodd ag Amser Stori BookTrust yn deuluoedd incwm isel

Dychwelodd **70%**
o'r teuluoedd a gymerodd ran i'r llyfrgell ar ôl eu hymweliad cychwynnol

## Effaith Amser Stori BookTrust

Rydyn ni'n falch iawn o weld ein partneriaid llyfrgell yn dweud wrthym fod Amser Stori BookTrust yn gwneud gwahaniaeth yn eu llyfrgelloedd.

Dywedodd **34%**
o lyfrgelloedd wrthym fod teuluoedd newydd wedi dod i'w llyfrgelloedd oherwydd Amser Stori BookTrust.



Dywedodd **60%**
o lyfrgelloedd fod teuluoedd newydd wedyn wedi ymuno â'u llyfrgelloedd o ganlyniad i fynychu sesiynau Amser Stori BookTrust neu ddefnyddio'r adnoddau.

Dywedodd **71%**
o lyfrgelloedd wrthym fod Amser Stori BookTrust wedi helpu i gefnogi gwaith eu llyfrgell gyda phlant dan 5 oed a chytunodd **35%** ei fod wedi'u helpu i gefnogi teuluoedd a phlant incwm isel yn well.

## Barn staff y llyfrgell am Amser Stori BookTrust

**Roedd**

**83%**

o staff y llyfrgell **yn hoffi neu wrth eu bodd** yn gweithio ar Amser Stori BookTrust eleni, i fyny o **72%** y llynedd.

**Dywedodd**

**79%**

o staff llyfrgelloedd wrthym fod **ein hadnoddau ar-lein yn eu cefnogi** yn eu gwaith gyda theuluoedd.

**Rhoddodd**

**68%**


o staff llyfrgelloedd sgôr o **bedwar allan o bump** o leiaf i'r adnoddau o ran eu haddasrwydd ar gyfer y teuluoedd fu'n eu defnyddio

Dywedodd staff y llyfrgell wrthym fod llyfrau a gweithgareddau Amser Stori BookTrust hyd yn oed yn fwy priodol i'r ystod oedran eleni –diolch i **adborth uniongyrchol gan staff y llyfrgell** y llynedd a'n helpodd ni i wella'r adnoddau. Rydyn ni'n falch o weld bod 62% o staff llyfrgelloedd yn teimlo bod nifer yr adnoddau eleni 'fwy neu lai'n iawn' (o gymharu â'r llynedd pan deimlai 63% o staff llyfrgelloedd eu bod nhw'n derbyn gormod).

## Cael teuluoedd i gymryd rhan yn Amser Stori BookTrust

Defnyddiodd staff y llyfrgell amrywiol ddulliau i annog teuluoedd i fynychu sesiynau Amser Stori BookTrust neu i ddefnyddio'r adnoddau yn eu llyfrgelloedd. Y rhai mwyaf cyffredin oedd **arddangos posteri y tu mewn i'r llyfrgell** (85%) ac **ar lafar** (73%).

**Ffyrdd o annog teuluoedd i brofi Amser Stori BookTrust**




Sylfaen: Pawb sy'n gweithio mewn llyfrgell (149). Arall (3%), Dim un o'r uchod (3%) a Ddim yn gwybod (1%) heb ei ddangos.

> "Dangosodd adborth mynychwyr o bob un o'n llyfrgelloedd a'n sesiynau fod y mwyafrif o'n mynychwyr wedi clywed am y sesiynau drwy ein cyfryngau cymdeithasol neu drwy waith hyrwyddo yn ein llyfrgelloedd, sy'n tynnu sylw at y ffaith fod denu teuluoedd newydd i'n Amser Stori / llyfrgelloedd yn faes y mae angen i ni adeiladu arno y flwyddyn nesaf."
>
> **Cydlynydd Dechrau Da, Swydd Hertford**


Ar ddechrau'r rhaglen (Hydref – Tachwedd 2022), dywedodd **48%** o staff llyfrgelloedd wrthym eu bod eisoes wedi **estyn allan at bartneriaid cymunedol** i'w helpu i ddod â theuluoedd incwm isel newydd i'w llyfrgelloedd. Bwriadai **67%** estyn allan at bartneriaid cymunedol drwy gydol y rhaglen, sy'n golygu bod cyfanswm o **78%** o lyfrgelloedd naill ai wedi estyn allan at bartneriaid cymunedol neu'n bwriadu gwneud hynny yn ystod y rhaglen.

Fodd bynnag, erbyn diwedd y rhaglen, **44%** o staff llyfrgelloedd ddywedodd wrthym eu bod wedi gweithio gyda **sefydliadau partner** mewn gwirionedd i annog teuluoedd i ddefnyddio adnoddau Amser Stori BookTrust. Cymerodd ein rhwydwaith o bartneriaid llyfrgell amser i drafod rhai o'r heriau ac rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddysgu sut allwn ni roi cefnogaeth orau i fynd i'r afael â'r rhain trwy ein gwaith blynyddoedd cynnar ehangach.

> Mae angen i ni ddod o hyd i ffordd well o annog teuluoedd i mewn, teuluoedd na fydden nhw fel arfer yn dod i lyfrgell neu'n rhannu llyfrau gyda'u plant. Roeddwn i wedi fy nghyffroi'n fawr gan yr agwedd hon ar Amser Stori Booktrust, a bu i ni geisio estyn allan at y teuluoedd hyn drwy'r Ganolfan Plant a Theuluoedd, ond prin iawn oedd y llwyddiant a gawsom.
>
> **Uwch Gynorthwyydd Llyfrgell, Swydd Gaergrawnt**

O'r rhai a weithiodd gyda sefydliadau partner (**44%**), y mwyaf cyffredin oedd Canolfannau Plant (**59%**) a Meithrinfeydd (**57%**).

**Sefydliadau y bu i lyfrgelloedd gydweithio â nhw i annog cyfranogi yn Amser Stori BookTrust**




**Allai eich llyfrgell chi wneud cysylltiadau ag unrhyw un o'r sefydliadau hyn i annog teuluoedd i brofi Amser Stori BookTrust?**


Sylfaen: Pawb a oedd wedi partneru â sefydliadau (68). Arall (3%) a Ddim yn gwybod (3%) heb ei ddangos. Roedd ymatebion 'eraill' yn cynnwys Action for Children, timau adsefydlu ffoaduriaid, a Thimau Dysgu fel Teulu.

> Roeddwn i wir yn caru'r sesiynau Amser Stori. Fe wnaethon ni rai ffrindiau a ddaeth i'r llyfrgell am y tro cyntaf erioed yn eu bywydau ac maen nhw'n dod yn ôl fel benthycwyr rheolaidd. [...] Rydyn ni wedi meithrin perthynas anhygoel gyda'r Ganolfan Blant ac rydyn ni'n fwy ymwybodol o'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu i deuluoedd. Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i helpu teuluoedd lleol gydag iechyd meddwl, bwydo ar y fron, a chefnogi datblygiad plant.
>
> **Llyfrgellydd, Swydd Northampton**

**Dengys ymchwil eleni bod Amser Stori BookTrust yn helpu i gefnogi creu perthynas hirdymor werthfawr rhwng llyfrgelloedd a phartneriaid cymunedol eraill, yn ogystal â helpu llyfrgelloedd i ddod o hyd i bartneriaid newydd i gysylltu â nhw.**

Fe ofynnon ni i staff llyfrgelloedd pa sefydliadau partner oedd fwyaf llwyddiannus yn eu barn nhw wrth annog teuluoedd newydd a theuluoedd incwm isel i mewn i'w llyfrgelloedd. Roedd y canlyniadau'n weddol debyg ar gyfer y ddau grŵp ac fe'u dangosir ar y dde.

**Sefydliadau partner mwyaf llwyddiannus ar gyfer annog teuluoedd newydd ac incwm isel i mewn i'r llyfrgell**





Sylfaen: Pawb a weithiodd mewn partneriaeth â sefydliadau ac a atebodd y cwestiwn ar gyfer teuluoedd newydd (65) a theuluoedd incwm isel (61). Dangosir y tri phrif sefydliad partner yn unig.

## Sut y defnyddiodd llyfrgelloedd yr adnoddau

Defnyddiodd ein partneriaid llyfrgell adnoddau Amser Stori BookTrust mewn amrywiaeth o ffyrdd i ymgysylltu â phlant a theuluoedd.

**Sut y defnyddiodd llyfrgelloedd eu hadnoddau Amser Stori BookTrust**




Sylfaen: Holl staff y llyfrgell (160)




> Rydyn ni'n defnyddio'r arlwy Amser Stori fel rhaglen gydol y flwyddyn sy'n digwydd ochr yn ochr â'n holl weithgareddau i blant dan 5 oed. Mae rhai o'r rhain mas yn y gymuned mewn canolfannau plant, sesiynau sy'n cael eu rhedeg gan elusennau lleol, a hefyd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.
> **Swyddog Blynyddoedd Cynnar y Llyfrgell, Wokingham**

Fe glywsom bod rhai llyfrgelloedd wedi **rhannu'u hadnoddau uwch** ymysg llyfrgelloedd yn eu hardal. Dyma syniad gwych yn ein barn ni, ac esboniodd staff y llyfrgell fod gwneud hyn:

- yn eu helpu i gyrraedd mwy o deuluoedd gyda'r adnoddau ar draws eu hardal
- yn fwy effeithlon gan fod staff yn gallu rhannu propiau a gweithgareddau eraill yr oeddent eisoes wedi'u creu
- yn helpu llyfrgelloedd mewn ardaloedd mwy anghysbell neu ble roedd llai o ymwelwyr i gynnig profiad newydd i deuluoedd blynyddoedd cynnar (yn aml mewn grwpiau llai oherwydd llai o ymwelwyr)

Dywed ein hymchwil wrthym fod mwyafrif y sesiynau Amser Stori BookTrust a gynhaliwyd yn agored i bob teulu eu mynychu. Fodd bynnag, gwyddom fod llawer o lyfrgelloedd hefyd wedi dewis cynnal **sesiynau pwrpasol** eleni, ar gyfer teuluoedd a fyddai'n elwa fwyaf yn eu barn nhw. Roedd enghreifftiau o'r mathau o deuluoedd neu grwpiau y cynhaliodd staff llyfrgelloedd sesiynau pwrpasol ar eu cyfer yn cynnwys rhai:

- oedd yn newydd i'r llyfrgell
- ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau
- â Saesneg fel iaith ychwanegol
- o gefndiroedd difreintiedig
- ag oedi o ran lleferydd ac iaith
- a oedd wedi symud i'r DU yn ddiweddar (e.e., ceiswyr lloches neu ffoaduriaid wedi'u hadsefydlu)

"Roedden ni'n dwlu defnyddio adnoddau Amser Stori. Ar ôl i'r cyfnod o 6 wythnos ddod i ben fe gadwon ni'r sesiynau i fynd yn ein prif lyfrgell ac maen nhw'n parhau i fynd nawr. Ysbrydolodd yr adnoddau ni i gynnal Amser Stori eto, rhywbeth nad oedden ni wedi'i wneud ers tro. Rydyn ni hefyd wedi gallu cyflwyno Amser Stori mewn 3 o'n llyfrgelloedd eraill oherwydd bod yr adnoddau mor dda wrth ysbrydoli staff i roi cynnig arni. Mae setiau fel y rhain yn help mawr i ddangos i staff pa mor hawdd a chymaint o hwyl y gall rhedeg y sesiynau hyn fod ac roedd y ffaith fod y llyfrau wedi cael eu dewis yn help mawr i ni ymgysylltu â staff newydd i ysbrydoli teuluoedd."

**Llyfrgellydd, Swydd Henffordd**

"Fe wnaethon ni roi cynnig ar [sesiwn unigol] yn y gorffennol a chael trafferth cael rhifau. Yr hyn sydd wedi ymddangos i weithio'n well yw darllen stori ar ddechrau'r hyn sydd yn ei hanfod yn sesiwn ganu. Lle bo modd, dwi wedi cysylltu caneuon â'r stori rydyn ni wedi'i darllen. Hoffwn gael sesiynau Amser Stori penodol gydag ambell gân efallai, ond rhyw gynnig arall hefyd."

**Cynorthwy-ydd Llyfrgell, Suffolk**

### Creu profiad Amser Stori BookTrust wedi'i deilwra yn y gymuned

Mae Llyfrgelloedd Northumberland wedi bod yn gweithio gyda Grŵp Mamau Cymunedol Afghanistan lleol sy'n cefnogi menywod sy'n newydd i'r gymuned, a'r wlad, fel rhan o gynllun ailsefydlu'r llywodraeth. Datblygodd y bartneriaeth hon i fod yn sesiwn wythnosol gaeedig a gynhelir mewn Hyb Teulu lleol, ble bydd athrawon Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) o'r gwasanaeth ailsefydlu yn defnyddio ein hadnoddau Amser Stori BookTrust gyda'r menywod a'u plant. Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth ailsefydlu a Llyfrgelloedd Northumberland ac edrychwn ymlaen yn fawr at glywed sut fydd y bartneriaeth hon yn datblygu!


# Defnyddio'r Hyb Storïwr

**Lansiodd BookTrust Hyb Storïwr Dechrau Da ym mis Medi 2022, sef canolbwynt digidol penodol ar gyfer partneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust, sy'n cwmpasu ein holl raglenni blynyddoedd cynnar. Mae tudalennau Amser Stori BookTrust ar yr Hyb yn cynnwys amrywiaeth o offer, adnoddau a syniadau ar sut i gefnogi teuluoedd ar eu hanturiaethau darllen a'n bwriad yw adeiladu'r cynnwys yn barhaus mewn ymateb i adborth y llyfrgell.**

Erbyn diwedd y rhaglen, dywedodd **72%** o bartneriaid llyfrgell eu bod wedi ymweld â thudalennau Amser Stori BookTrust ar yr Hyb Storïwr a dywedodd **12%** arall nad oedden nhw'n bersonol wedi gwneud ond bod rhywun yr oedden nhw'n gweithio gyda nhw wedi rhannu gwybodaeth. Doedd **15%** ddim wedi ymweld â'r Hyb.

Roedd y rhan fwyaf a oedd wedi defnyddio'r Hyb wedi gwneud hynny fwy nag unwaith (**80%**), a'r rheswm mwyaf cyffredin dros weld staff y llyfrgell yn ymweld â'r Hyb oedd i wylio adnoddau Amser Stori BookTrust (**83%**). Gellir gweld rhesymau eraill yr ymwelodd staff y llyfrgell â'r Hyb isod.

**Rhesymau roddodd staff y llyfrgell dros ddefnyddio Hyb Storïwr BookTrust**




Sylfaen: Pawb a ymwelodd â'r Hyb Storïwr (115)

> "Roedd yr adnoddau ychwanegol ar yr Hyb Storïwr yn ddefnyddiol iawn i wneud Amser Stori yn fwy rhyngweithiol."
>
> **Rheolwr Llyfrgell, Swydd Wiltshire**



**Roedd 80%** o staff y llyfrgell a ddefnyddiodd yr Hyb Storïwr yn teimlo bod ei gynnwys yn eu cefnogi yn eu gwaith gyda theuluoedd blynyddoedd cynnar, ond byddwn ni'n edrych ar ffyrdd y gallwn ei wneud hyd yn oed yn fwy defnyddiol yn seiliedig ar eich adborth.

BookTrust Storytime



# Beth nesaf i Amser Stori BookTrust 2023-24?

**Mae BookTrust yn hynod ddiolchgar i'r holl deuluoedd, llyfrgelloedd a phartneriaid cymunedol a gyfrannodd at gyflwyno a dysgu ar Amser Stori BookTrust yn ei ail flwyddyn. Rydyn ni'n ymateb i'r adborth hwn wrth i ni lunio ein gwaith at y dyfodol trwy Amser Stori BookTrust a'n rhaglenni blynyddoedd cynnar eraill.**

IYn enwedig, mae staff llyfrgelloedd wedi awgrymu'r canlynol i helpu i ymgysylltu â phlant a theuluoedd yn y blynyddoedd cynnar:

- Mwy o syniadau am weithgareddau a gysylltir â'r llyfrau. Er enghraifft, rhestr o gelf a chrefft amrywiol, helfeydd trysor, rhigymau neu ganeuon, y gallai staff y llyfrgell eu teilwra i weddu i anghenion teuluoedd, nifer y mynychwyr, a lefelau egni.
- Mwy o weithgareddau i blant iau, e.e. lluniadau dot-i-ddot.
- Syniadau ac awgrymiadau ar sut i hysbysebu Amser Stori BookTrust, sefydliadau cymunedol y gellid ceisio partneru â nhw, a chyngor ar sut i sefydlu perthynas, ac ysbrydoliaeth ar sut i annog amrywiaeth o deuluoedd i ymuno, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r llyfrgell.
- Gweld sut mae eraill yn defnyddio Amser Stori BookTrust yn eu llyfrgelloedd. Gobeithio fod yr adroddiad hwn wedi rhoi blas ar sut mae Amser Stori BookTrust yn gweithio ar draws y bron i 2,400 o lyfrgelloedd sy'n rhan o'r rhaglen, ac mae'r Hyb Storïwr yn cynnwys astudiaethau achos o wahanol lyfrgelloedd. Gallwch hefyd rannu gwyobdaeth am yr holl ffyrdd gwych rydych chi wedi bod yn creu sesiynau cofiadwy a hwyliog yn eich llyfrgelloedd yma hefyd! Drwy rannu eich arbenigedd gallech roi rhywfaint o ysbrydoliaeth i eraill adeiladu arno, gan eu helpu i ddatblygu'u sesiynau arbennig eu hunain ar gyfer eu llyfrgelloedd penodol nhw.

Mae BookTrust yn falch iawn i fod yn gweithio gyda llyfrgelloedd eto'r flwyddyn nesaf. Ein blaenoriaethau dysgu allweddol ar gyfer 2023-24 yw:

- Parhau i ddysgu sut y gallwn ni roi gwell cefnogaeth i'n partneriaid er mwyn dod â'n rhaglenni blynyddoedd cynnar ynghyd i greu taith ddarllen gydlynol yn y blynyddoedd cynnar.
- Parhau i ddysgu sut y gallwn wella ein cynnwys digidol a rhannu mwy oddi wrth lyfrgelloedd eu hunain. Rydych chi wedi dweud wrthym pa mor werthfawr yw clywed gan lyfrgelloedd eraill a hoffem wneud mwy i hwyluso rhannu gwybodaeth.
- Adolygu'r rhaglen mewn ymateb i dueddiadau allanol. Rydyn ni'n ymwybodol iawn bod staff llyfrgelloedd yn disgwyl i gyfran uwch o blant llawer iau ddefnyddio'r adnoddau yn y dyfodol wrth i'r llywodraeth gyflwyno newidiadau i gyllid gofal plant.
- Deall allgyrraedd: yr heriau a ble mae hyn yn gweithio'n dda iawn, amlygu a gweithio gyda phartneriaid cymunedol i ddod â theuluoedd newydd i'r llyfrgell, a'r ffordd orau y gall BookTrust gefnogi.
- Gweithio gyda nifer fach o bartneriaid llyfrgell a sefydliadau cymunedol i archwilio sut y gellid mynd ag Amser Stori BookTrust allan o leoliadau llyfrgell neu ei gyflwyno i leoliadau nad ydynt yn llyfrgelloedd yn y gymuned.

## Ynglŷn â BookTrust

Fel yr elusen ddarllen fwyaf i blant yn y Deyrnas Unedig, rydym am i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd a thrwy ddewis. Rydym yn cyrraedd dros ddwy filiwn o blant a theuluoedd bob blwyddyn, gan eu hysbrydoli â llyfrau ac adnoddau i'w rhoi ar ben ffordd ar eu taith ddarllen. Rydym yn darparu ystod eang o lyfrau, adnoddau a chymorth sydd wedi'u curadu a'u dylunio'n ofalus i helpu teuluoedd i ddechrau rhannu storïau a pharhau i ddarllen drwy gydol eu plentyndod. Rydym yn cynnig mwy o gymorth wedi'i dargedu i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus oherwydd ein bod yn gwybod mai'r plant hyn fydd yn elwa fwyaf o fanteision darllen.

Mae ein cymorth yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac mae wedi'i ddylunio i newid ymddygiad at ddarllen. Caiff ei ddatblygu mewn partneriaeth â theuluoedd ac ymarferwyr arbenigol i greu profiadau darllen ar y cyd sy'n llawn ysbrydoliaeth ac sy'n bleserus i blant a theuluoedd.

Diolch i rwydwaith anhygoel o bartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, llyfrgelloedd a mwy ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gallwn gyrraedd teuluoedd lle maen nhw, yn eu cymunedau lleol.

### Dechrau Da

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, cyrhaeddodd ein llyfrau ac adnoddau Dechrau Da dros 700,000 o deuluoedd sydd â phlant yn eu blynyddoedd cynnar, a hynny mewn dros 5,000 o wahanol leoliadau cymunedol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

BookTrust
Getting children reading

### Cysylltwch â ni

queries@booktrust.org.uk

booktrust.org.uk

@BookTrust

©2023 BookTrust. Rhif elusen: 313343

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND



Darluniau Owl: © Caterpillar Books Ltd 2019. Awdur Libby Walden.
Hawlfraint y darluniau © Jacqui Lee 2019

